

Troseddu yng Nghymru a Lloegr 2009/10:

Taflen Ffeithiau Cymru

Neil Higgins, Jennifer Innes, Andrew Britton a Paul Robb

Lefelau troseddu yng Nghymru

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tabl 1, Ffigur 1)

- Yn 2009/10, roedd cyfanswm y gyfradd troseddau yng Nghymru (74 o droseddau am bob 1,000 o bobl) yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol (79 o droseddau am bob 1,000 o bobl). Roedd y cyfraddau troseddau a gofnodwyd yng Nghymru yr un fath neu'n is na'r cyfraddau cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr ymhob un o'r prif grwpiau o droseddau, heblaw am ddifrod troseddol.
- Fe wnaeth cyfanswm nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru ostwng chwech y cant yn 2009/10, o'i gymharu â gostyngiad o wyth y cant drwy Gymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Bu gostyngiadau ymhob un o'r prif grwpiau o droseddau, o'i gymharu â 2008/09. Gostyngodd nifer y troseddau yn erbyn cerbydau 16 y cant, a gostyngodd y difrod troseddol 13 y cant, tra bu gostyngiad o ddau y cant mewn trais yn erbyn yr unigolyn a bwrgleriaeth.

Arolwg Troseddu Prydain (Tablau 2 a 3, Ffigur 2 a'r blwch testun 'Deall ATP' ar dudalen 7)

- Mae'r risg o ddiodef trosedd (cyfran y boblogaeth a ddiodefodd drosedd unwaith neu ragor yn y 12 mis diwethaf) o ran troseddau personol a chartrefi, yn is yng Nghymru nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd cyfradd achosion¹ o fwrgleriaeth ATP yn is yng Nghymru, tra bo'r cyfraddau achosion o ladrata'n ymwneud â cherbydau a thrais yn debyg, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- O ran y grwpiau troseddau a gofnodwyd ar wahân ar gyfer Cymru, ni fu unrhyw wahaniaethau ystadegol yn y lefelau troseddu rhwng ATP 2008/09 a 2009/10.

Lefelau troseddu yn ôl ardaloedd yr heddlu

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tabl 1)

- Roedd cyfraddau'r holl droseddau'n uwch ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol, mewn dwy o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru. Roedd y gyfradd isaf yng Nghymru i'w chael yn Nyfed-Powys (44 o droseddau am bob 1,000 o bobl), a chofnodwyd y gyfradd uchaf yng Ngwent (91 o droseddau am bob 1,000 o bobl).
- Roedd y cyfraddau troseddau a gofnodwyd yn Nyfed-Powys yn is nag yng Nghymru a Lloegr o ran pob un o'r prif grwpiau troseddau. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfraddau'n is nag yng Nghymru a Lloegr o ran bwrgleriaeth, troseddau yn erbyn cerbydau a throseddau lladrata eraill, ond yn debyg o ran difrod troseddol a thrais yn erbyn yr unigolyn.
- Roedd y cyfraddau yn Ne Cymru yr un fath â'r rhai Cymru a Lloegr o ran trais yn erbyn yr unigolyn a throseddau lladrata eraill, yn is o ran bwrgleriaeth ond yn uwch o ran troseddau yn erbyn cerbydau a difrod troseddol. Roedd gan Went gyfraddau is na Chymru a Lloegr o ran troseddau lladrata eraill ond ar gyfer y prif grwpiau eraill, roeddent yn uwch.
- Gostyngodd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd 12 y cant rhwng 2008/09 a 2009/10 yn Ne Cymru, saith y cant yn Nyfed-Powys a thri y cant yng Ngogledd Cymru. Gwelodd Gwent gynnydd o dri y cant dros yr un cyfnod.
- Fe wnaeth troseddau trais yn erbyn yr unigolyn ostwng saith y cant rhwng 2008/09 a 2009/10 yn Nyfed-Powys a De Cymru, aros yn sefydlog yng Ngwent, a chynyddu wyth y cant yng Ngogledd Cymru. Fe

¹ Y gyfradd digwyddiadau yw nifer y troseddau a gafwyd am bob cartref neu oedolyn [gweler adran 2 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*].

Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2009/10

wnaeth bwrghleriaeth gynyddu 28 y cant yng Ngwent, a dau y cant yng Ngogledd Cymru, ond gostwng 19 y cant yn Nyfed-Powys, ac 14 y cant yn Ne Cymru. Cofnododd pob heddlu yng Nghymru ostyngiad mewn difrod troseddol.

Tabl 1 Troseddau a gofnodwyd yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, 2009/10¹

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cyfanswm y troseddau gofnodwyd (nifer) ²	Cymru a Lloegr, Troseddau a gofnodwyd					
		Cyfraddau troseddau a gofnodwyd am bob 1,000 o bobl					
	Cyfanswm y trsoeddau a gofnodwyd (cyfraddau)	Trais yn erbyn yr unigolyn	Bwrghleriaeth	Troseddau yn erbyn cerbydau ³	Troseddau eraill yn ymwneud â dwyn ⁴	Difrod troseddol	
Cymru	221,391	74	16	8	9	16	16
<i>Dyfed-Powys</i>	22,377	44	10	4	3	9	10
<i>Gwent</i>	50,842	91	17	13	14	17	20
<i>Gogledd Cymru</i>	44,919	66	18	7	5	14	15
<i>De Cymru</i>	103,253	83	16	9	12	19	18
Lloegr	4,057,139	79	16	10	9	19	15
Cymru a Lloegr	4,338,604	79	16	10	9	19	15
		% y newid rhwng 08/09 a 09/10					
Cymru	221,391	-6	-2	-2	-16	-1	-13
<i>Dyfed-Powys</i>	22,377	-7	-7	-19	-17	-1	-17
<i>Gwent</i>	50,842	3	0	28	5	6	-6
<i>Gogledd Cymru</i>	44,919	-3	8	2	-19	3	-13
<i>De Cymru</i>	103,253	-12	-7	-14	-24	-5	-15
Lloegr	4,057,139	-8	-4	-7	-16	-4	-14
Cymru a Lloegr	4,338,604	-8	-4	-7	-16	-4	-14

1. Detholiad yw'r rhestr o droseddau a gofnodwyd o'r prif grwpiau o droseddau. Am ragor o fanylion am ba droseddau sy'n cael eu cynnwys yn y grwpiau hyn, gweler y rhestr o droseddau a gofnodwyd yn [Atodiad 2 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*]. Y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd oedd yr amcangyfrifon canol-blwyddyn 2008 a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac maent yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd yn Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2009/10.

2. Mae cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn cynnwys: trais yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol, lladrata, bwrghleriaeth, troseddau yn erbyn cerbydau, troseddau eraill yn ymwneud â dwyn, twyll a ffugio, troseddau cyffuriau, difrod troseddol a throseddau eraill. Mae'r rhestr Cymru a Lloegr ar ei hyd yn cynnwys troseddau a gofnodwyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (HTP). Fodd bynnag, nid yw ffigurau HTP yn cael eu cynnwys yng ngweddill y tabl.

3. Mae troseddau yn erbyn cerbydau yn cynnwys: dwyn cerbyd modur, dwyn o gerbyd, cymryd cerbydau trwy rym ac ymyrryd â cherbyd modur.


4. Gweler y rhestr o droseddau a gofnodwyd yn [Atodiad 2 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am restr o'r troseddau a gynhwyswyd yn 'Troseddau eraill yn ymwneud â dwyn'.

Tabl 2 Cyfraddau risg ac achosion ATC o ran troseddau cartrefi a phersonol yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr


Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP							
	Troseddau cartrefi		Troseddau personol					
	% yn dioddef o leiaf unwaith	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Cyfradd am bob 10,000 o gartrefi ¹	Newid rhwng 08/09 a 09/10	% yn dioddef o leiaf unwaith	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Cyfradd am bob 10,000 o oedolion ¹	Newid rhwng 08/09 a 09/10
Cymru	14	**	2,081		5	**	691	
<i>Dyfed-Powys</i>	8	**	1,081		2	**	186	**↓
<i>Gwent</i>	21	**	3,600		6		1,132	**↑
<i>Gogledd Cymru</i>	11	**	1,639		3	**	528	
<i>De Cymru</i>	16		2,167		6		824	
Lloegr	17		2,550	**↓	6		824	**↓
Cymru a Lloegr	16		2,525	**↓	6		817	

1. Caiff cyfraddau troseddau cartrefi (gan gynnwys bwrghleriaeth a lladrata'n ymwneud â cherbydau) eu cyfrifo am bob 10,000 o gartrefi. Caiff cyfraddau troseddau personol (gan gynnwys troseddau treisgar) eu cyfrifo am bob 10,000 o oedolion.

Ffigwr 1 Cyfraddau troseddau a gofnodwyd am bob 1,000 o bobl, yn ôl ardaloedd yr heddlu, 2009/10



Ffigwr 2 Cyfraddau achosion ATC y math o drosedd yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, 2009/10



Troseddu yng Nghymru a Lloegr 2009/10

Tabl 3 Cyfradd troseddau ATC yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP								
	Bwrgleriaeth			Lladrata'n ymwneud â cherbydau ²			Pob traais ATP		
	Cyfradd am bob 10,000 o gartrefi ¹	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10	Cyfradd am bob 10,000 o gartrefi ¹	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10	Cyfradd am bob 10,000 o oedolion ¹	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10
Cymru	168	**		546			445		
<i>Dyfed-Powys</i>	39	**		260	**		66	**	**↓
<i>Gwent</i>	262		**↑	741			750		**↑
<i>Gogledd Cymru</i>	112	**		356			438		
<i>De Cymru</i>	222			712			489		
Lloegr	287			521		**↓	469		**↓
Cymru a Lloegr	280			522		**↓	467		**↓

1. Caiff cyfraddau troseddau cartrefi gan gynnwys bwrgleriaeth a lladrata'n ymwneud â cherbydau) eu cyfrifo am bob 10,000 o gartrefi. Caiff cyfraddau troseddau personol gan gynnwys troseddau treisgar) eu cyfrifo am bob 10,000 o oedolion.

2. Mae 'lladrata'n ymwneud â cherbydau' yn cynnwys dwyn cerbydau a dwyn ohonynt, ac ymgeisiadau i ddwyn cerbydau a dwyn ohonynt [Gweler Atodiad 2 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

Arolwg Troseddu Prydain (Tablau 2 a 3)

Oni nodir yn wahanol, mae pob newid yn amcangyfrifon ATP a ddisgrifir yn y prif destun yn arwyddocaol yn ystadegol (gweler blwch testun 'Deall data ATP' ar dudalen 7 ac [Adran 8 o'r *User Guide*]).

- Roedd y risg o droseddau cartrefi a phersonol yn is yn Nyfed-Powys a Gogledd Cymru o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Roedd y troseddau cartrefi yn uwch yng Ngwent nag yng Nghymru a Lloegr.
- Gostyngodd y gyfradd achosion o droseddau personol a'r holl drais ATP yn Nyfed-Powys ATC 2008/09 a 2009/10. Fe wnaeth y gyfradd troseddau personol, bwrgleriaeth a thrais gynyddu yng Ngwent dros yr un cyfnod.

Canfyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru (Tabl 4)

- Roedd gan un deg chwech y cant o bobl yng Nghymru lefel uchel o ganfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol, sy'n debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr (14%). Roedd lefelau is o ganfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nyfed-Powys a Gogledd Cymru, a lefelau uwch yng Ngwent a De Cymru, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Roedd cyfran y bobl a oedd yn gweld defnyddio neu ddelio cyffuriau yn broblem yn uwch yng Nghymru'n gyffredinol (31%) ac yng Ngwent a De Cymru yn benodol (37% a 38% yn eu trefn), o'i gymharu ag yng Nghymru a Lloegr (26%). Roedd cyfran y bobl yn Nyfed-Powys a oedd yn gweld defnyddio neu ddelio cyffuriau yn broblem yn sylweddol uwch nag yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru'n gyffredinol, nid oedd gwahaniaeth yng nghyfran y bobl a oedd yn gweld ymddygiad meddw neu stwrilyd yn broblem, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Roedd cyfran uwch o bobl yng Ngwent a De Cymru yn gweld hynny'n broblem, ond yn Nyfed-Powys roedd y gyfran yn is.
- Roedd y tri mesur canfyddiad yn dangos gostyngiadau yng Nghymru a Lloegr rhwng ATP 2008/09 a 2009/10, er nad oedd gostyngiadau ymddangosiadol yng Nghymru yn arwyddocaol yn ystadegol. Yn Nyfed-Powys, roedd lefel y canfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad meddw neu stwrilyd wedi gostwng, a dim ond y rhain oedd yn newidiadau arwyddocaol yn ystadegol o ran heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r mesurau hyn sy'n ymwneud â chanfyddiad.

Tabl 4 Canfyddiadau ATP o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ôl heddlu yng Nghymru a Lloegr

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP					
	Lefel uchel o ganfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ¹		Problem defnyddio neu ddelio cyffuriau yn yr ardal ²		Problem ymddygiad meddw neu stwrlyd yn yr ardal ³	
	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10
Cymru	16		31	**	26	
<i>Dyfed-Powys</i>	5	**↓	20	**	16	**↓
<i>Gwent</i>	22	**	37	**	31	**
<i>Gogledd Cymru</i>	10	**	23		20	
<i>De Cymru</i>	21	**	38	**	33	**
Lloegr	14	**↓	26	**↓	24	**↓
Cymru a Lloegr	14	**↓	26	**↓	24	**↓

1. Mesurwyd gan ddefnyddio'r mesur saith edefyn o ymddygiad gwrthgymdeithasol. [Gweler Adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

2. Canran y bobl a oedd yn canfod bod problem fawr iawn/eithaf mawr gyda defnyddio neu ddelio cyffuriau yn eu hardal leol.

3. Canran y bobl a oedd yn canfod bod problem fawr iawn/eithaf mawr gydag ymddygiad meddw neu stwrlyd yn eu hardal leol.

Effeithiolrwydd a thegwch y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru (Tabl 5)

- Roedd pum deg pump y cant o bobl yng Nghymru yn hyderus fod y system yn deg, ac roedd hyn yn is nag yng Nghymru a Lloegr (59%). Roedd hyder yn is yng Ngwent (51%) ac yn Ne Cymru (54%) nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.
- Roedd tri deg chwech y cant o bobl yng Nghymru'n teimlo'n hyderus fod y system yn effeithiol wrth ddod â phobl a oedd wedi troseddu o flaen eu gwell. Roedd hyn yn sylweddol is nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol (41%). O blith yr heddluoedd yng Nghymru, roedd yr hyder ar ei isaf yng Ngwent (30%) a De Cymru (35%).

Tabl 5 Tegwch ac effeithiolrwydd ATP o'r system cyfiawnder troseddol yn ôl ardaloedd yr heddlu a Chymru a Lloegr

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP			
	Tegwch y system ¹		Effeithiolrwydd y system ²	
	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10	% Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwng 08/09 a 09/10
Cymru	55	**	36	**
<i>Dyfed-Powys</i>	59		38	
<i>Gwent</i>	51	**	30	**
<i>Gogledd Cymru</i>	58		42	
<i>De Cymru</i>	54	**	35	**
Lloegr	60	**↑	41	**↑
Cymru a Lloegr	59	**↑	41	**↑

1. Canran y bobl a oedd yn hyderus iawn/eithaf hyderus fod y system yn deg ar y cyfan. [Gweler adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

2. Canran y bobl a oedd yn hyderus iawn/eithaf hyderus fod y system yn effeithiol ar y cyfan. [Gweler adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

Agweddau tuag yr heddlu lleol yng Nghymru (Tabl 6)

- Roedd pum deg dau y cant o bobl yng Nghymru yn cytuno bod yr heddlu yn gwneud gwaith da neu ragorol, ac roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (56%). Roedd cyfran y bobl a oedd yn cytuno ar ei isaf yng Ngwent (45%).
- Roedd cyfran y bobl yng Nghymru a oedd yn cytuno bod yr heddlu'n deall ac yn ymdrin â phryderon lleol yn is nag yng Nghymru a Lloegr (53% o'i gymharu â 56%). Yn Nyfed-Powys, roedd y gyfran yn uwch nag yng Nghymru a Lloegr (61%); yng Ngwent a De Cymru, roedd yn is (47% a 50% yn eu trefn).
- Nid oedd cyfran y bobl yng Nghymru a oedd yn cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith da neu ragorol, ac yn deall ac yn ymdrin â phryderon lleol, yn 2009/10 yn sylweddol wahanol nag yn 2008/09.

Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2009/10

Tabl 6 Agweddau ATP tuag ar yr heddlu lleol yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP					
	Graddiad yr heddlu lleol ¹			Yr heddlu'n ymdrin â phryderon lleol ²		
	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwyng 08/09 a 09/10	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwyng 08/09 a 09/10
Cymru	52	**		53	**	
<i>Dyfed-Powys</i>	58			61	**	
<i>Gwent</i>	45	**		47	**	
<i>Gogledd Cymru</i>	53			57		
<i>De Cymru</i>	52			50	**	
Lloegr	57		**↑	56		**↑
Cymru a Lloegr	56		**↑	56		**↑

1. Canran y bobl oedd yn dweud bod eu heddlu lleol yn gwneud gwaith da/rhagorol. [Gweler Adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

2. Canran y bobl oedd yn cytuno bod yr heddlu yn yr ardal yn delio â'r pethau oedd o bwys i'r bobl yn y gymuned. [Gweler adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

Agweddau tuag yr heddlu lleol yn gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru (Tabl 7)

- Roedd pedwar deg saith y cant o bobl yng Nghymru yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion troseddol a oedd o bwys yn eu hardal, ac roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (51%). Roedd y gyfran o'r rhai oedd yn cytuno ar ei isaf yng Ngwent (45%), ac yn dilyn hynny roedd Gogledd Cymru (47%).
- Roedd cyfran y bobl yng Nghymru a oedd yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn ceisio barn pobl am y materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau a oedd o bwys yn eu hardal, yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (45% o'i gymharu â 47%).

Tabl 7 Agweddau ATP tuag ar yr heddlu lleol yn gweithio mewn partneriaeth yn ôl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr

Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Cymru a Lloegr, ATP					
	Heddlu a chynghorau lleol yn delio â materion ¹			Heddlu a chynghorau lleol yn ceisio barn pobl ²		
	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwyng 08/09 a 09/10	%	Gwahanol i Gymru a Lloegr	Newid rhwyng 08/09 a 09/10
Cymru	48	**	**↑	45		**↑
<i>Dyfed-Powys</i>	49			46		
<i>Gwent</i>	45	**		45		**↑
<i>Gogledd Cymru</i>	47	**		44		
<i>De Cymru</i>	50		**↑	45		
Lloegr	52		**↑	47		**↑
Cymru a Lloegr	51		**↑	47		**↑

1. Canran y bobl sy'n cytuno'n gryf/tueddu i gytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn delio â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r materion troseddol sydd o bwys yn yr ardal. [Gweler Adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

2. Canran y bobl oedd yn cytuno'n gryf/tueddu i gytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn ceisio barn pobl am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion troseddol oedd o bwys yn yr ardal. [Gweler adran 6 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*] am ragor o wybodaeth.

Deall data ATP

- Gan fod yr amcangyfrifon ATP yn agored i gamgymeriadau samplu, fe allai gwahaniaethau rhwng blynyddoedd dilynol yr arolwg neu rhwng isgrwpiau poblogaeth ddigwydd ar hap. Defnyddir profion o arwyddocâd ystadegol i adnabod pa wahaniaethau sy'n anhebygol o fod wedi digwydd ar hap. Mae samplau bychain yn golygu nad yw newidiadau sy'n ymddangosiadol fawr rhwng blynyddoedd neu wahaniaethau rhwng grwpiau o bosib yn arwyddocaol yn ystadegol.
- Yn Nhablau 2 i 7, dangosir gwahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol yng Nghymru a Lloegr a rhwng 2008/09 a 2009/10. Mae dwy seren yn golygu gwahaniaethau arwyddocaol ar lefel pum y cant. Mae'r saethau'n dangos cyfeiriad y newid.
- Dim ond canlyniadau ATP sy'n arwyddocaol yn ystadegol ar lefel pump y cant a nodir yn y testun yn y daflen ffeithiau hon.
- Lleolir y digwyddiadau ATP yn ddaearyddol yn yr ardal lle mae'r ymatebwr yn byw yn hytrach nag yn union leoliad y digwyddiad.
- O ran seiliau amhwysol, gweler y tablau ar gyfer Pennod 7 'Geographic patterns of crime', yn *Crime in England and Wales 2009/10* (Flatley *et al.*, 2010).

Troseddau treisgar a rhywiol lle defnyddiwyd cyllyll ac arfau miniog eraill**Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tabl 8)**

Yn 2009/10, cafwyd 765 o droseddau difrifol detholedig² a gofnodwyd gan yr heddlu lle defnyddiwyd cylllell neu arf miniog arall³ yng Nghymru, sef gostyngiad o 18 y cant o'i gymharu â'r llynedd. Roedd hyn yn ostyngiad mwy nag a welwyd yng Nghymru a Lloegr ar y cyfan, lle bu gostyngiad o saith y cant. Cafwyd gostyngiadau ymhob un o'r troseddau detholedig yng Nghymru, gan gynnwys 18% o ostyngiad mewn troseddau lladrad lle defnyddiwyd cylllell (o 231 o droseddau i 190) a 17 y cant o ostyngiad yn y troseddau niwed corfforol (ABH a GBH) lle defnyddiwyd cylllell (o 584 o droseddau i 482).

Roedd cyfran y troseddau lle defnyddiwyd cylllell yng Nghymru, sef tri y cant, yn is na'r gyfran ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol (6%). Mae hyn yn wir am bob grŵp o droseddau; o ran lladradau, roedd y gyfran lle defnyddiwyd cylllell yn 19% (o'i gymharu â 21% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol) ac o ran niwed corfforol (ABH a GBH) y gyfran oedd dau y cant (o'i gymharu â 4% ar gyfer Cymru a Lloegr). Ni wneir cymariaethau ar gyfer y grwpiau eraill o droseddau gan fod nifer y troseddau yn rhy fychan i'r rhain fod yn ystyrlon.

Yn 2009/10, y gyfradd droseddau a gofnodwyd ar gyfer y troseddau difrifol detholedig¹ lle defnyddiwyd cylllell neu arf miniog arall yng Nghymru (0.26 o droseddau am bob 1,000 o bobl) yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol (0.62 o droseddau am bob 1,000 o bobl).

² Nid yw cyfanswm y troseddau difrifol detholedig ond yn cynnwys y pum math o drosedd: Ymgais i Lofruddio; Bygythiadau i Ladd; Niwed Corfforol ABH a GBH; Lladrad; Trais Rhywiol ac Ymosodiadau Rhywiol, fel y dangosir yn Nhabl 8. Yn y tabl hwn, mae 'troseddau lle defnyddiwyd cylllell' yn cyfeirio at y defnydd o gyllell neu arf miniog. Mae troseddau eraill yn bodoli, sydd heb gael eu dangos yn y tabl, sy'n gallu cynnwys y defnydd y gyllell neu arf miniog.

³ Cyfeirir at y rhain fel troseddau cyllyll yng ngweddill yr adran hon.

Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2009/10

Tabl 8 Troseddau cyllyll ac arf miniog a gofnodwyd gan yr heddlu o ran troseddau detholedig, 2008/09 a 2009/10¹

Math o drosedd detholedig	Cymru a Lloegr, Troseddau a gofnodwyd				
	Nifer y troseddau detholedig yn ymwneud â chylllell ¹		% y newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol	Cyfran y troseddau detholedig a oedd yn ymwneud â chylllell	
	2008/09	2009/10	2008/09 to 2009/10	2008/09	2009/10
Cymru					
Ymgais i lofruddio	12	7	-	-	-
Bygythiadau i laddl	96	83	-14	19	14
Niwed corfforol ABH a GBH ²	584	482	-17	3	2
Lladrata	231	190	-18	19	19
Trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol ³	5	3	-	0	0
Cyfanswm y troseddau detholedig	928	765	-18	4	3
Lloegr					
Ymgais i lofruddio	262	254	-3	48	44
Bygythiadau i laddl	1,459	1,430	-2	16	16
Niwed corfforol ABH a GBH ²	16,496	15,333	-8	4	4
Lladrata	16,232	15,234	-7	21	21
Trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol ³	357	319	-12	1	1
Cyfanswm y troseddau detholedig	34,806	32,570	-7	7	7
Cymru a Lloegr⁴					
Ymgais i lofruddio	275	262	-5	48	44
Bygythiadau i ladd	1,564	1,524	-3	16	16
Niwed corfforol ABH a GBH ²	17,182	15,864	-8	4	4
Lladrata	16,693	15,592	-7	21	21
Trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol ³	366	324	-13	1	1
Cyfanswm y troseddau detholedig	36,080	33,566	-7	7	6

1. Mae data am droseddau cyllyll ac arfau miniog yn cael eu cyflwyno trwy gasgliad arbennig ychwanegol. Mae troseddau eraill yn bodoli sydd heb gael eu dangos yn y tabl hwn ond sy'n gallu cynnwys defnyddio cylllell neu arf miniog. Yn y tabl hwn, mae 'troseddau'n ymwneud â chylllell' yn cyfeirio at ddefnyddio cylllell neu arf miniog. Nid yw cyfanswm y troseddau difrifol ond yn cynnwys y pum math o drosedd a ddangosir yn y tabl hwn.

2. Yn cynnwys anafu neu gyflawni gweithred sy'n perygl bywyd.

3. Yn cynnwys ymosodiad ar wryw/benyw, ymosodiad rhywiol ar wryw/benyw (pob oedran).

4. Yn cynnwys Heddlu Trafnidaeth Prydain

- Yn dangos nad yw'r data'n cael ei adrodd oherwydd bod nifer sylfaenol y troseddau yn llai na 50.

Cyfraddau datrys yn ôl dull datrys yn ôl heddlu yng Nghymru a Lloegr

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (Tabl 9)

Mae troseddau a ddatrysir yn derm sy'n disgrifio troseddau sydd wedi cael eu datrys gan yr heddlu. Gellir rhannu'r datrysiadau yn ddau gategori, sef datrysiadau cosb a di-gosb. Mae'r cyntaf yn digwydd pan fo'r troseddwr yn derbyn rhyw fath o gosb ffurfiol, a'r olaf pan ddatrysir y drosedd ond na chymerwyd unrhyw gamau pellach yn erbyn y troseddwr. Yn dilyn y cyfyngiadau ar y defnydd o ddatrysiadau di-gosb, y cyfraddau datrysiad cosb yw'r mesur sy'n cael ei ffafrio bellach, gan roi cymhariaeth fwy ystyrion o heddluoedd unigol. Mae'r cyfraddau datrys yn dangos rhai gwahaniaethau rhwng heddluoedd; ond rhaid dehongli'r rhain yn ofalus (gweler Pennod 6 o Flatley et al., 2010 am ragor o wybodaeth).

Mae cyfran y troseddau a gofnodwyd ac a ddatrysir gyda datrysiad cosb yng Nghymru yn 33 y cant yn 2009/10, sydd yn uwch nag yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol (28%). Roedd y gyfradd uchaf yng Nghymru i'w chael yn Nyfed-Powys (48%), tra oedd y gyfradd isaf a gofnodwyd i'w chael yn Ne Cymru (30%). Roedd cyfradd datrysiadau cosb Gogledd Cymru yn 41 y cant, ac roedd gan Went gyfradd datrysiadau cosb o 26 y cant.

Tabl 9 Cyfraddau datrys yn ôl dull datrys, ardaloedd yr heddlu a Chymru a Lloegr, 2009/10¹

Niferoedd a chanrannau		Troseddau a gofnodwyd 2009/10							
Ardal yr heddlu, Cymru a Lloegr	Troseddau a gofnodwyd	Cyfradd datrys ²	Cyfradd datrys cosb	Cyfradd datrys yn ôl dull datrys					
				Cyhuddo/ gwysio	Rhybuddion	Cymerwyd i ystyriaeth		Rhybuddion o gosb am Anhrefn	Rhybudd am ganabis ³
						Cofnodwyd o'r blaen	Ni chofnodwyd o'r blaen		
Cymru	221,391	34	33	19	7	1	0	3	2
<i>Dyfed-Powys</i>	22,377	48	48	24	15	1	0	4	4
<i>Gwent</i>	50,842	26	26	14	7	1	0	3	1
<i>Gogledd Cymru</i> ²	44,919	43	41	23	9	2	0	5	2
<i>De Cymru</i>	103,253	30	30	19	5	2	0	3	2
Lloegr	4,057,139	28	27	15	6	2	0	2	2
Cymru a Lloegr ⁴	4,338,604	28	28	15	6	2	0	2	2

1. Canran y troseddau a ddatryswyd.

2. Mae'r gyfradd ddatrys gyffredinol yn cynnwys nifer fechan o Benderfyniadau Cymodi Ieuentid (*Youth Restorative Disposals*) a gyflwynir i'r Swyddfa Gartref fel rhan o gynllun peilot gan Ogledd Cymru a saith o heddluoedd yn Lloegr [gweler Adran 3 o'r *User Guide to Home Office Crime Statistics*].

3. Ers Ionawr 26, 2009, gellir rhoi Rhybudd o Gosb am Anhrefn am fod ym meddiant canabis. Hyd at ddiwedd Mawrth 2009, roedd rhybuddion o'r fath yn cael eu cyfrif gyda Rh

4. Yn cynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Cyfeiriadau a darllen pellach

Flatley, J., Kershaw, C., Smith, K., Chaplin, R. and Moon, D. (2010) *Crime in England and Wales 2009/10*, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 12/10. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

<http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs10/hosb1210.pdf>

User Guide to Home Office Crime Statistics (2010). Llundain: Y Swyddfa Gartref.

<http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs10/crimestats-userguide.pdf>

Am ragor o wybodaeth fanwl, gweler y bennod 'Geographic patterns of crime' yn y prif gyhoeddiad.

Mae tablau ychwanegol yn adrodd ystadegau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, Unedau Rheoli Sylfaenol, ardaloedd a rhanbarthoedd yr heddlu, i'w cael ar:

<http://www.homeoffice.gov.uk/rds/crimeew0910.html>